

Nodiadau canllaw ar lenwi Ffurflen FP162 – Hysbysiad Atebydd

Mae taflen rad ac am ddim EX340 – ‘Rwyf am apelio’ sy’n rhoi gwybodaeth am apelio yn Adran Deulu’r Uchel Lys, neu apelio i Adran Deulu’r Uchel Lys (‘yr Uchel Lys’) ar gael gan unrhyw lys neu gan Swyddfa Apeliadau’r Adran Deulu yn Queen’s Building, Floor 1M, Royal Courts of Justice, Strand, Llundain WC2A 2LL. Bydd y daflen hefyd yn egluro rhai o’r termau a’r ymadroddion a ddefnyddir yn y canllawiau hyn.

Mae gwybodaeth a chanllawiau eraill am apelio i’r Uchel Lys ar gael gan Swyddfa Apeliadau’r Adran Deulu.

- Gall staff llys eich helpu i lenwi’r hysbysiad atebydd a rhoi gwybod i chi am y drefn, ond allan nhw ddim rhoi cyngor cyfreithiol i chi, er enghraifft, pa mor debygol yw apêl yr apelydd o fod yn llwyddiannus, a ddylech ymateb iddi, a ddylech chi apelio, neu beth ddylech chi ei ysgrifennu ar y ffurflen os byddwch yn penderfynu ymateb.
- Os oes arnoch angen cyngor cyfreithiol ynglŷn â’r apêl hon, dylech gysylltu â chyfreithiwr, Canolfan Cyngor ar Bopeth, canolfan cyfraith neu ganolfan gynghori.
- Os oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol, dylai eich chyfreithiwr lenwi’r ffurflen hon ar eich rhan.

Pryd i ffeilio hysbysiad atebydd

Bydd angen i chi ffeilio hysbysiad os ydych yn dymuno:

- apelio yn erbyn y gorchymyn (mae apelio yn cynnwys gofyn i’r llys amrywio’r gorchymyn); neu
- gofyn i’r llys apêl gadarnhau’r gorchymyn am resymau gwahanol neu ychwanegol. (Nid yw’r llys apêl yn trin hyn fel apêl.)

Os ydych yn dymuno amddiffyn (dadlau yn erbyn) apêl yr apelydd, heb ddibynnu ar resymau gwahanol neu ychwanegol at y rhai a roddwyd gan y barnwr, nid oes rhaid i chi ffeilio hysbysiad atebydd. Er hyn, dylech ffeilio dadl fframwaith yn amlinellu’r rhesymau pam nad ydych yn cytuno â’r apêl.

PWYSIG – terfynau amser ar gyfer ffeilio eich hysbysiad (Rheol 30.5 yn y Rheolau Trefniadaeth Teulu)

Hyn a hyn o amser sydd gennych i ffeilio eich hysbysiad atebydd.

Rhaid i chi ffeilio eich hysbysiad atebydd yn yr Uchel Lys:-

- o fewn y terfyn amser a bennwyd gan y barnwr y gwneir yr apêl yn erbyn ei orchymyn neu ei benderfyniad; **neu**
- lle na osodwyd unrhyw derfyn amser gan y barnwr hwnnw, ond bod yr apêl yn ymwneud â phenderfyniad rheoli achos, cyn **pen 7 niwrnod** gan ddechrau â’r dyddiad y cyflwynwyd:
 - yr hysbysiad apelydd, lle rhoddwyd caniatâd i apelio gan y llys is neu lle nad oes angen caniatâd i apelio; **neu**
 - yr hysbysiad bod y llys apêl wedi rhoi caniatâd i’r apelydd apelio; **neu**
 - yr hysbysiad y bydd y cais am ganiatâd i apelio a’r apêl ei hun yn cael eu clywed gyda’i gilydd
- lle na osodwyd unrhyw derfyn amser gan y barnwr hwnnw, a bod yr apêl yn erbyn penderfyniad ar wahân i benderfyniad rheoli achos, **cyn pen 14 diwrnod** gan ddechrau â’r dyddiad y cyflwynwyd:
 - yr hysbysiad apelydd, lle rhoddwyd caniatâd i apelio gan y llys is neu lle nad oes angen caniatâd i apelio; **neu**

- yr hysbysiad bod y llys apêl wedi rhoi caniatâd i'r apelydd apelio; **neu**
- yr hysbysiad y bydd y cais am ganiatâd i apelio a'r apêl ei hun yn cael eu clywed gyda'i gilydd.

Rhaid i chi ffeilio eich hysbysiad yn y llys sy'n ymdrin ag apêl yr apelydd, sef Adran Deulu'r Uchel Lys.

Nodiadau cyffredinol ar lenwi'r hysbysiad

Isod fe welwch nodiadau i'ch helpu i lenwi'r ffurflen. Dylech ddarllen y nodiadau i bob adran yn ofalus cyn dechrau llenwi'r adran benodol honno.

Os oes arnoch angen mwy o le i roi'ch atebion, defnyddiwch ddarn arall o bapur, gan nodi'n glir at ba adran y mae'r wybodaeth yn cyfeirio. Ysgrifennwch rif yr achos arno, llofnodwch ef, a rhoi'r dyddiad arno, a'i roi ynghlwm wrth yr hysbysiad.

Os nad yw'r holl wybodaeth gennych i lenwi eich hysbysiad atebydd (neu unrhyw ddogfennau y mae angen i chi eu ffeilio gydag ef), **peidiwch** â gadael i hyn eich rhwystro rhag anfon eich hysbysiad neu fynd ag ef i'r llys apêl o fewn yr amser cywir. Llenwch y ffurflen mor gyflawn â phosibl a darparwch y dogfennau sydd gennych. Bydd y nodiadau ar Adrannau 8 a 9 yn esbonio mwy am yr hyn y bydd angen i chi ei wneud yn yr amgylchiadau hyn.

Rhowch gyfeirnod y llys apêl yng nghornel dde uchaf yr hysbysiad atebydd. Bydd y rhif hwn i'w weld ar y dde yn rhan uchaf yr hysbysiad apelydd.

Mae ffi yn daladwy pan fyddwch yn ffeilio eich hysbysiad atebydd yn y llys. Mae Ffurflenni **EX50 – 'Ffioedd Llys ar gyfer yr Uchel Lys, y llys sirol a'r llys teulu'** ac FP200 - 'Ffioedd Achosion Teulu' yn rhoi arweiniad ar y costau perthnasol a gwahanol ffyrdd o dalu. Rhaid i chi dalu'r ffi berthnasol pan fyddwch yn ffeilio unrhyw ddogfen neu'n cychwyn unrhyw broses, oni nodir yn wahanol. Mae copi o'r ddogfen hon ar gael o:

- Unrhyw lys teulu neu ganolfan wrandawiadau
- hmctsformfinder.justice.gov.uk

Os na fyddwch yn talu, bydd eich achos yn cael ei ddal yn ôl ('atal') neu ei wrthod ('dileu')

Os nad oes gennych lawer o gynilion, neu os nad oes gennych unrhyw gynilion o gwbl, os ydych yn derbyn budd-daliadau penodol neu os yw eich incwm yn isel, efallai y gallwch gael help i dalu ffi'r llys (a elwir hefyd yn ddileu ffi). I gael rhagor o wybodaeth, neu i wneud cais am help i dalu ffioedd, ewch i gov.uk/get-help-with-court-fees. Os nad ydych yn gallu cael mynediad i'r rhyngwrdd, gallwch gael ffurflen bapur (**EX160 – Gwneud cais am help i dalu ffioedd**) gan staff llys mewn unrhyw swyddfa llys teulu.

Os caniatawyd eich cais i ddileu ffi, bydd angen i chi roi'r cyfeirnod unigryw hwn ar y ffurflen.

ADRAN 1

Manylion yr achos

Rhowch enw'r llys y mae apêl yn erbyn ei orchymyn, rhif yr achos, a theitl yr achos, e.e. 'John Smith v Eric James'. Gallwch godi'r manylion hyn o'r gorchymyn y mae apêl yn ei erbyn.

Nodwch, drwy roi tic yn y blwch priodol, pa barti oeddech chi yn yr achos hwnnw.

ADRAN 2

Manylion yr atebydd

Rhowch eich enw llawn ac enw eich cynrychiolydd cyfreithiol os oes gennych un. Os nad oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol dylech ddarparu cyfeiriad y gellir anfon yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r apêl iddo. Dylech gynnwys gwybodaeth ar gyfer cysylltu, e.e. rhif ffôn ac unrhyw gyfeirnodau eraill a chyfeiriad ebost. Os oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol, rhowch fanylion eich cynrychiolydd cyfreithiol, fel bod modd anfon papurau sy'n ymwneud â'r apêl at eich cyfreithiwr yn uniongyrchol.

Os oes unrhyw bartïon ychwanegol nad ydynt wedi'u henwi gan yr apelydd yn yr hysbysiad apelydd, rhestrwch eu henwau, cyfeiriadau a manylion cysylltu ar ddarn arall o bapur. Ysgrifennwch rif yr achos arno a rhowch ef ynghlwm wrth eich hysbysiad.

Ticiwch y blwch i adael i'r llys wybod os oes manylion ar wahân ynghlwm, a nodwch yn glir yn y blwch manylion faint o bartïon ychwanegol sy'n cael eu darparu, fel bod staff y llys yn gwybod faint o fanylion partïon sy'n cael eu darparu.

ADRAN 3

Manylion y gorchymyn yr ydych yn dymuno apelio yn ei erbyn

Os ydych yn apelio yn erbyn rhan yn unig o orchymyn neu benderfyniad, rhaid i chi ysgrifennu'r rhan honno (neu'r rhannau hynny) o'r gorchymyn yn y blwch a ddarparwyd.

Dylech roi teitl ac enw llawn y barnwr, e.e. 'Ei Anrhydedd y Barnwr Jones' neu 'Y Barnwr Rhanbarth Smith', a dyddiad y gorchymyn neu'r penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn.

ADRAN 4

Caniatâd i ffeilio hysbysiad atebydd

Fel arfer bydd angen i chi gael caniatâd i ffeilio hysbysiad atebydd i apelio yn erbyn penderfyniad Barnwr Cylchdaith, Cofiadur neu Farnwr Rhanbarth yr Uchel Lys (mae apelio yn cynnwys gofyn am gael amrywio gorchymyn y barnwr).

Ni roddir caniatâd oni bai fod y llys yn credu bod gan eich apêl (neu gais i amrywio) obaith gwirioneddol o lwyddo neu os oes rheswm da arall dros wrando'r apêl. Os ydych yn apelio yn erbyn penderfyniad rheoli achos, bydd y llys hefyd yn ystyried:-

- a yw'r mater yn ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau costau apêl;
- yr effaith gyffredinol ar yr amserlen rheoli achosion, e.e. a yw colli dyddiad y treial yn fwy arwyddocaol na'r pwynt gweithdrefnol yr ydych yn dymuno apelio yn ei glych;
- yr effaith ar les y plentyn/plant a'r amserlen ar gyfer y plentyn/plant; ac
- a fyddai'n fwy cyfleus ymdrin â'ch pwynt yn y treial.

Rhaid i chi ofyn am ganiatâd i apelio yn yr hysbysiad hwn

- os na wnaethoch ofyn am ganiatâd i apelio yn y gwrandawriad lle y gwnaed y penderfyniad yr ydych chi'n apelio yn ei erbyn; neu
- os bu i chi ofyn am ganiatâd, ond iddo gael ei wrthod, a'ch bod yn dymuno i'r llys apêl ailystyried eich cais.

Nid oes arnoch angen caniatâd os yw'r gorchymyn yr ydych yn apelio yn ei erbyn yn un o'r canlynol:

- gorchymyn traddodi
- gorchymyn llety diogel o dan Adran 25 o Ddeddf Plant 1989 neu Adran 119 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- gofyn i'r llys apêl gadarnhau penderfyniad y llys is, hyd yn oed os yw am resymau gwahanol neu ychwanegol

Os oes arnoch angen mwy o amser nag a ganiateir ar gyfer ffeilio eich hysbysiad atebydd, rhaid i chi wneud cais yn yr hysbysiad ei hun. (Gweler y nodiadau ar Adran 8).

ADRAN 5

Seiliau dros apelio neu dros gadarnhau'r gorchymyn

Os ydych yn apelio yn erbyn gorchymyn y llys is, rhaid i'ch apêl (mae apelio yn cynnwys gofyn am gael amrywio'r gorchymyn) fod yn seiliedig ar 'seiliau' (rhesymau) perthnasol. Ni fydd llys apêl yn caniatáu apêl yn erbyn penderfyniad oni bai ei fod naill ai:

- yn anghywir; neu
- yn anghyfiawn oherwydd anghysondeb gweithdrefnol difrifol neu anghysondeb arall yn achos y llys is.

Nid yw'r llys apêl yn debygol o wrthdroi penderfyniad lle na fyddai hynny'n gwneud gwahaniaeth mawr i ganlyniad yr achos; neu lle byddai'r apêl yn golygu ailedrych ar yr ymchwiliad ffeithiol a wnaed gan y llys is.

Nid yw gofyn i'r llys gadarnhau penderfyniad yn apêl, ond rhaid i chi roi rhesymau os ydych yn gofyn i'r llys gadarnhau'r penderfyniad ar seiliau gwahanol neu ychwanegol.

Nodwch yn fyr y rhesymau pam yr ydych yn credu bod penderfyniad y barnwr yn anghywir neu'n anghyfiawn (cyfeirir at hyn fel 'seiliau'r apêl'). Os yw'n bosibl, rhestrwch eich rhesymau mewn paragraffau byr wedi'u rhifo ar wahân.

Cofiwch na chewch gynnwys unrhyw seiliau sy'n dibynnu ar dystiolaeth newydd, hynny yw, tystiolaeth sydd wedi dod i law ers i'r gorchymyn gwreiddiol gael ei wneud. Chewch chi ddim cyflwyno tystiolaeth newydd heb gael caniatâd yr Uchel Lys yn gyntaf. (Gweler y nodiadau ar Adran 8).

ADRAN 6

Dadleuon i gefnogi seiliau'r apêl

Nodwch drwy roi tic yn y blwch perthnasol eich bod hefyd wedi rhoi dogfen yn amlinellu eich dadleuon i gefnogi seiliau'r apêl (y cyfeirir ati fel eich 'dadl fframwaith') ynghlwm wrth yr hysbysiad hwn neu y bydd yn cael ei ffeilio yn ddiweddarach yn yr achos. Os nad oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol, does dim rhaid i chi wneud dadl fframwaith ar wahân, ond cewch wneud hynny os dymunwch.

Rhaid i unrhyw ddadl fframwaith ar wahân gael ei ffeilio a'i chyflwyno i'r apelydd a phob atebydd arall gyda'ch hysbysiad atebydd wedi'i gwblhau ddim hwyrach na 14 diwrnod ar ôl i chi dderbyn dadl fframwaith yr apelydd.

Dylai eich dadl fframwaith gynnwys rhestr wedi'i rhifo o'r pwyntiau y bwriadwch ddibynnu arnynt yng ngwrandawriad yr apêl. Ni ddylid cymryd mwy na brawddeg neu ddwy i ddatgan pob pwynt. Cyfeiriwch ymhob pwynt at unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu ffeilio gyda'ch hysbysiad atebydd sy'n cefnogi'r ddadl honno. (Gweler Adran 9 ar ddogfennau).

Os nad ydych wedi rhoi eich dadleuon ynghlwm wrth eich hysbysiad, peidiwch ag oedi cyn anfon eich hysbysiad. (Gweler Adran 9).

ADRAN 7

Pa benderfyniad yr ydych yn gofyn i'r llys ei wneud

Rhowch fanylion y gorchymyn/gorchmynion (neu'r amrywiad i'r gorchymyn/gorchmynion gwreiddiol) yr ydych eisiau i'r llys apêl ei wneud/eu gwneud.

ADRAN 8

Ceisiadau eraill

Os ydych eisiau gwneud cais am estyniad i'r amser ar gyfer ffeilio eich hysbysiad atebydd, rhaid i chi wneud y cais hwn yn Rhan A o'r adran hon. Dylech nodi'r rheswm dros yr oedi a'r camau a gymerwyd hyd at amser ffeilio'r hysbysiad.

Efallai y byddwch am wneud mwy o geisiadau i'r llys apêl mewn perthynas â'ch apêl neu gais i amrywio neu gadarnhau'r gorchymyn. Gellir gwneud unrhyw geisiadau eraill naill ai yn yr hysbysiad, neu mewn hysbysiad cais ar wahân (Ffurflen FP244). Gellir cael y ffurflen hon gan y llys neu ar-lein o hmcts.courtfinder.justice.gov.uk. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu ffioedd ychwanegol os ffeilir hi'n ddiweddarach na'ch hysbysiad atebydd.

Bydd y mathau o geisiadau y byddech o bosibl eisiau eu gwneud yn cynnwys:

- diwygio eich hysbysiad atebydd (gwneud newidiadau iddo) ar ôl iddo gael ei ffeilio yn y llys. Ond sylwer y gallwch ddiwygio eich dadl fframwaith (hyd yn oed os yw wedi'i hamlinellu yn rhan 7 o'ch hysbysiad) heb wneud cais;
- gofyn i'r llys apêl gyhoeddi gohiriad a fydd yn atal gweithredu'r gorchymyn neu atal unrhyw gamau yn yr achos nes bydd penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â'r apêl. (Nid oes angen i chi wneud hyn os ydych wedi cael gohiriad yn barod gan y llys is);
- cyflwyno tystiolaeth newydd yn yr apêl neu ofyn am ganiatâd i gyflwyno tystiolaeth lafar yng ngwrandawriad yr apêl. Bydd angen i chi roi rhesymau pam nad oedd y dystiolaeth newydd gerbron y llys gwreiddiol, ac os gofynnir am dystiolaeth lafar bydd angen i chi roi rhesymau i egluro pam yr ydych yn credu bod angen hynny;
- gofyn am sicrwydd ar gyfer costau, h.y. gorchymyn i'r apelydd dalu swm o arian i'r llys a fydd yn ddigon i dalu unrhyw gostau y gellid gorchymyn i'r apelydd eu talu yn yr apêl.

Dylech chi, neu eich cyfreithiwr os oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol, lofnodi'r datganiad gwirionedd ar waelod yr adran hon i gefnogi unrhyw dystiolaeth yr ydych yn ei darparu. Mae'n bwysig eich bod yn gwirio bod yr wybodaeth sydd yn yr hysbysiad yn gywir cyn llofnodi. Mae llofnodi datganiad gwirionedd anwir heb gredu'n onest ei fod yn wir yn ddirmyg llys. Gallai arwain at ddirwy, atafaelu eich asedau neu ddedfryd o garchar.

RHAID i'r hysbysiad gael ei lofnodi gennych chi neu eich cyfreithiwr os oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol. Bydd y llys yn dychwelyd ffurflenni heb eu llofnodi a gallai hynny olygu bod yr apêl yn cael ei gwrthod gan ei bod yn rhy hwyr.

ADRAN 9

Dogfennau ategol

Efallai y bydd gennych ddogfennau ychwanegol at y rhai sydd wedi'u ffeilio gan yr apelydd i gefnogi eich apêl neu eich cais i amrywio neu gadarnhau'r gorchymyn. Dylai'r rhain fod mewn bwndel a dylent gael eu ffeilio gyda'ch hysbysiad atebydd.

Peidiwch ag oedi cyn ffeilio eich hysbysiad atebydd yn y llys apêl. Os nad ydych wedi gallu cael unrhyw rai o'r dogfennau yr ydych yn dymuno eu ffeilio gyda'ch hysbysiad, llenwch yr hysbysiad orau y gallwch a gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei ffeilio mewn pryd.

Dylai eich bwndel gynnwys unrhyw rai o'r canlynol (oni bai eu bod wedi'u cynnwys yn barod yn y bwndel a ffeiliwyd gan yr apelydd):-

- eich hysbysiad atebydd ac unrhyw ddatl fframwaith (os ydynt ar wahân);
- unrhyw ddatganiadau tystion i gefnogi unrhyw gais sydd wedi'i gynnwys yn Adrannau 5 neu 9 o'ch hysbysiad neu mewn hysbysiad cais ar wahân;
- unrhyw ddatganiad tyst arall sy'n cael ei ffeilio i gefnogi eich dadleuon; ac
- unrhyw ddogfennau eraill y mae'r llys yn dweud y dylid eu ffeilio yn yr apêl.

Peidiwch â ffeilio unrhyw ddogfennau eraill ar wahân i'r rhai y mae'r llys yn gofyn amdanynt heb yn gyntaf gael caniatâd gan y llys i wneud hynny. Ni fydd y barnwr yn darllen dogfennau ychwanegol.

Dylech gofio os byddwch yn ffeilio unrhyw rai o'r dogfennau yn ddiweddarach, bod yn rhaid i chi wirio a yw'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu yn newid unrhyw fanylion sydd wedi'u rhoi yn barod yn eich hysbysiad atebydd. Os yw, bydd angen i chi wneud cais i'r llys am ganiatâd i ddiwygio'r hysbysiad. Gall y llys ddweud wrthy'ch sut i wneud hyn.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ffeilio eich hysbysiad wedi'i gwblhau

Gwnewch gopiau o'r hysbysiad wedi'i gwblhau (ac unrhyw ddatl fframwaith ar wahân neu fwndeli o ddogfennau) fel bod gennych un copi i chi eich hun, dau gopi i'r llys ac un copi i bob atebydd. Anfonwch yr hysbysiad, ac unrhyw ddogfennau ategol neu fwndeli, ynghyd â'r ffi briodol i Swyddfa Apeliadau'r Adran Deulu yn y cyfeiriad a nodir ar waelod y daflen hon, neu ewch â hwy yno. Gall y llys ddweud wrthy'ch faint yw'r ffi.

Os nad oes gennych lawer o gynilion, neu os nad oes gennych unrhyw gynilion, os ydych yn derbyn budd-daliadau penodol neu os yw eich incwm yn isel, efallai y gallwch gael help i dalu ffi'r llys (a elwir hefyd yn ddileu ffi). I gael rhagor o wybodaeth neu i wneud cais am help i dalu ffioedd, ewch i gov.uk/get-help-with-court-fees. Os nad ydych yn gallu cael mynediad i'r rhyngwyd, gallwch gael ffurflen bapur (**EX160 – Gwneud cais am help i dalu ffioedd**) gan staff llys mewn unrhyw swyddfa llys teulu.

Cyflwyno eich hysbysiad atebydd

Rhaid cyflwyno copi wedi'i selio o'r hysbysiad hwn, unrhyw ddadleuon fframwaith ar wahân neu fwndel o ddogfennau i'r apelydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ond ddim hwyrach na 7 niwrnod ar ôl iddo gael ei ffeilio yn y llys.

Eich cyfrifoldeb chi yw cyflwyno'r holl ddogfennau sydd wedi'u ffeilio i'r apelydd ac unrhyw atebwyr eraill. Bydd y llys yn rhoi dogfen i chi (tystysgrif cyflwyno) i'w dychwelyd i'r llys pan fyddwch wedi cyflwyno'r dogfennau i'r apelydd ac unrhyw atebwyr eraill.

Rhaid cyflwyno unrhyw ddadl fframwaith ar wahân (gweler y nodiadau ar Adran 7 uchod) gyda'r hysbysiad atebydd lle bo modd neu cyn pen 14 diwrnod ar ôl derbyn dadl fframwaith yr apelydd.

Os ydych wedi gwneud cais am fwy o amser i ddarparu'r holl wybodaeth y mae arnoch ei hangen ar gyfer apêl, bydd gan yr apelydd a'r atebwyr eraill hawl i fod yn bresennol yng ngwrandawriad eich cais.

Anfonwch hysbysiadau wedi'u cwblhau i:

Family Division Appeals Office, Floor 1M, Queen's Building, Royal Courts of Justice, Strand, Llundain WC2A 2LL
DX 44450 Strand Ffôn: 020 7947 7192